# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd T. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans, D. Price a H.B. Shepardson

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
N. Daniel, Pennaeth TGCh;
G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd;
D. Richards, Rheolwr Prosiectau Adnoddau Dynol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**
**10.00am-11.45 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU / MATERION ERAILL

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.D. James.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Terry Davies at y ffaith mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor, cyn yr etholiadau oedd ar ddod, a diolchodd i'r Aelodau am eu holl gymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd fel Cadeirydd. Bu'r Aelodau'n talu teyrnged i'r Cynghorydd Davies am ei arweinyddiaeth.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd wedi ei gynnal ar 28 Tachwedd 2016 gan eu bod yn gywir.**

## 4. RHAGLEN SEFYDLU AELODAU 2017

Bu'r Aelodau'n ystyried Rhaglen Ddrafft 2017 ar gyfer Sefydlu Aelodau. Byddai'r rhaglen 12 mis, a oedd wedi derbyn adborth gan y grwpiau ffocws diweddar yn cynnwys y cynghorwyr presennol, yn cefnogi aelodau newydd ac aelodau a fyddai'n dychwelyd yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai 2017.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ddrafft.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2017)

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y penderfyniadau a'r argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru

ar Gydnabyddiaeth Ariannol [Chwefror 2017] i'w gynnwys yng Nghynllun Cyflogau a Lwfansau presennol y Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2017/18. Roedd Adroddiad y Panel yn cynnwys 51 o benderfyniadau gyda'r mwyafrif ohonynt yn aros yr un fath a'r hyn a welwyd yn Adroddiad 2016.

Wrth osod lefel y cyflogau a'r lwfansau ar gyfer 2017/18 penderfynodd y Panel y byddai cynnydd cymharol fach o thua 0.75% yng nghyflog blynyddol sylfaenol yr aelodau etholedig. Ni chafodd cynnydd ei gynnig ar gyfer uwch-gyflogau ond byddai deiliaid y swyddi hynny yn cael y cynnydd o ran elfen y cyflog sylfaenol. Roedd trefniadau hefyd wedi cael eu cyflwyno i gydnabod y goblygiadau o salwch tymor hir deiliaid yr uwch-gyflogau. Yn ogystal roedd y Panel, gan gofio mai ychydig iawn o bobl ledled y sefydliadau oedd wedi manteisio ar y Lwfansau Gofal, wedi penderfynu caniatáu gwahanol ddulliau o ran cyhoeddi costau gofal. Roedd y Panel hefyd wedi penderfynu defnyddio'r term 'ad-dalu costau gofal' yn lle lwfansau gofal.

Gofynnwyd am farn y Pwyllgor am y taliadau i Aelodau Gweithredol, Cadeiryddion Pwyllgorau, Penaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig, ynghyd â'r Lwfansau Cynhaliaeth a'r Lwfansau Llety, Cydnabyddiaeth Ariannol Cadeiryddion Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a thalu Ffioedd Aelodau Cyfetholedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18, a chyhoeddi costau ad-dalu gofal.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR**

**5.1 nodi bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu bod y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif awdurdodau lleol yn cynyddu i £13,400 ar gyfer 2017/18;**

**5.2 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn 2017/18 [Lefel 1];**

**5.3 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Gadeiryddion Pwyllgorau yn 2017/18 [Lefel 1];**

**5.4 cadw'r drefn bresennol o ran lefel y cyflog a delir i Gadeirydd ac i Is-gadeirydd y Cyngor yn 2017/18 [Lefel 2];**

**5.5 cytuno ar y cyfraddau ad-dalu costau cynhaliaeth ar gyfer 2017/18 fel y nodir isod:-**

**£200.00 y noson i Lundain;**
**£95 y noson mewn mannau eraill;**
**£25 y noson am aros gyda ffrindiau neu deulu;**

**Cadw'r drefn bresennol o ran y lwfans dydd a'r arfer presennol bod yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am drefniadau llety dros nos yr aelodau.**

**5.6 parhau â'r arfer presennol o nodi'r trefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ag Awdurdodau eraill a chynnwys y Pwyllgorau hyn yng nghynllun y Cyngor pe bai'r Cyngor yn penderfynu sefydlu Cyd-bwyllgorau yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2017/18 a thalu cyflog;**

**5.7 bod y ffioedd a delir i'r Aelodau Cyfetholedig yn aros ar y lefel bresennol ar gyfer 2017/18 sef 10 diwrnod llawn [neu 20 hanner diwrnod] o gyfarfodydd y flwyddyn;**

**5.8 cyhoeddi manylion y symiau i'w had-dalu i aelodau a enwir ar gyfer ad-dalu costau gofal [opsiwn 1];**

**5.9 derbyn gweddill argymhellion a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2017 a'u cynnwys yn rhan o Gynllun presennol Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig 2017/18.**

## 6. DARPARIAETH TGCH I'R AELODAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn nodi manylion y cynigion i ddarparu gwasanaeth TGCh gwell, mwy cost effeithiol, cynaliadwy ac effeithiol i Aelodau yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2017.

**PENDERFYNWYD bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion sy'n rhan ohono, yn bennaf:-**

**6.1 bod Aelodau sydd newydd gael eu hethol yn defnyddio eu band eang eu hunain a chael Lwfans Cyfathrebu o £20 y mis;**

**6.2 bod Aelodau presennol sy'n cael eu hail-ethol yn parhau i ddefnyddio'r ddarpariaeth band eang safonol presennol neu ddefnyddio eu band eang cyflym iawn posibl eu hunain a chael lwfans cyfathrebu o £20;**

**6.3 peidio â darparu argraffwyr newydd a bod Aelodau yn cael defnyddio'r cyfleusterau argraffu yn swyddfeydd y Cyngor;**

**6.4 bod Gwasanaethau TGCh yn cael gwybod y dyfeisiau a ffafrir gan yr Aelodau - opsiynau i gynnwys Lenovo Mix Tablet, Lenovo Laptop, i-pad - byddai'r ddyfais sengl yn cynnwys cerdyn Data Sim;**

**6.5 bod Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn defnyddio un ddyfais ac i-phone**